menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Adroddiad Blynyddol
Menter Iaith Fflint a Wrecsam
Annual Report 2025-2026



“Wedi mwynhau Babis yr Awen yn fawr iawn, iawn” - Gwyddgig 2025





"Wnaethom ni fwynhau gweithio fel tîm a'r sialens" - Llwybrau Llafar



Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 04000756 wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Elusen Gofrestredig Rhif: 1194088.
Company Limited by Guarantee Registered in England and Wales 04000756. Registered Charity No: 1194088.

Gair o'r Gadair
Message from the Chair

Unwaith eto eleni, cawsom flwyddyn brysur a llawn gweithgarwch ar draws ein dwy sir, Sir y Fflint a Wrecsam. Mewn blwyddyn mor brysur, mae'n anodd dewis uchafbwyntiau penodol, ond roedd gweld cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ym mis Awst yn sicr yn un o'r prif ddigwyddiadau. Bu cryn gyffro a disgwyl ymlaen llaw, ynghyd â llawer o weithgarwch codi arian a pharatoi ar draws ein cymunedau.

Mae'r Eisteddfod bob amser yn gyfnod prysur i'r Fenter Iaith leol, gyda chydweithio agos rhwng Mentrau Iaith Cymru i ddarparu rhaglen amrywiol o weithgareddau ar faes yr ŵyl drwy gydol yr wythnos. Bydd yn ddiddorol gweld pa waddol parhaol a ddaw yn sgil yr Eisteddfod i Wrecsam a'r ardal ehangach yn y blynyddoedd i ddod.



Da oedd gweld GwyddGig yn dychwelyd am ei hail flwyddyn a dechrau gwreiddio'n gadarn yn yr Wyddgrug. Mae gŵyl gymunedol o'r fath yn bwysig, nid yn unig fel sbardun i ddod â phobl ynghyd, ond hefyd fel cyfle gwerthfawr i fwynhau a dathlu cerddoriaeth Gymraeg fyw.



Yn yr un ysbryd, mae prosiect Y Sîn ar y Ffin wedi bod yn creu cyfleoedd newydd drwy gyfrwng y Gymraeg i hyrwyddo'r sîn gerddoriaeth Gymraeg yn Sir y Fflint a Wrecsam. Diolch i gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru, mae'r prosiect wedi cynnal cyfres o sesiynau a chlybiau cerddoriaeth Cymraeg yn y gymuned ac yn y ddwy ysgol uwchradd Gymraeg yr ardal. Mae'r gweithgareddau hyn wedi rhoi cyfle i ddisgyblion ddarganfod artistiaid a bandiau cyfoes Cymraeg, trafod a gwerthfawrogi eu gwaith, a datblygu sgiliau newydd mewn amgylchedd creadigol a chefnogol.

Yn flynyddol, ni ellir adrodd ar weithgareddau'r flwyddyn heb sôn am ein dathliadau Gŵyl Ddewi, sy'n parhau i fod ymhlith y digwyddiadau pwysicaf yn ein calendr. Mae'r dathliadau hyn yn mynd o nerth i nerth, gan adeiladu ar y berthynas gref sydd gennym â'r cynghorau lleol. Rwy'n hynod falch ein bod, er gwaethaf yr heriau, yn parhau i allu trefnu a chynnal dathliadau llwyddiannus yn y ddwy sir.



Roedd yn arbennig o braf eleni fod yn rhan o orymdaith Gŵyl Ddewi yn Wrecsam. Er iddi gael ei chynnal ar y Sul, gwelsom fwy o deuluoedd a grwpiau cymunedol nag erioed yn cymryd rhan, gan greu awyrgylch bywiog a chroesawgar. Mae gwirfoddolwyr wrth galon llwyddiant digwyddiadau o'r fath; heb eu hymroddiad, eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth, ni fyddai'r dathliadau hyn yn bosibl. Hoffwn estyn ein diolch diffuant iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr.

Wrth gwrs, dim ond cipolwg ar rai o'r gweithgareddau a'r mentrau Cymraeg a gynhaliwyd ar draws y ddwy sir sydd wedi'u hamlygu yma. Fel y gwelwch drwy weddill yr adroddiad, bu'n flwyddyn brysur a llwyddiannus, gyda gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal er budd cymunedau Sir y Fflint a Wrecsam yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026.

Hoffwn estyn diolch diffuant i staff y Fenter am eu gwaith caled, eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd drwy gydol y flwyddyn. Diolch hefyd i aelodau'r Bwrdd am eu hamser, eu harweiniad a'u cefnogaeth barhaus, ac i'n cyllidwyr a'n partneriaid am eu cydweithrediad gwerthfawr. Heb eu cefnogaeth hwy, ni fyddai cyflawni'r gwaith hwn yn bosibl.

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Gair o'r Gadair

Message from the Chair

Once again, we've had a busy and activity-filled year across our two counties, Flintshire and Wrexham. With so much going on, it's difficult to choose specific highlights, but hosting the National Eisteddfod in Wrexham in August was certainly one of the main events of the year. There was a great deal of excitement and anticipation in the lead-up, alongside lots of fundraising and preparations taking place across our communities.



The Eisteddfod is always a busy time for the local Menter Iaith, with close collaboration between Mentrau Iaith Cymru to deliver a varied programme of activities on the festival field throughout the week. It will be interesting to see what lasting legacy the Eisteddfod brings to Wrexham and the wider area in the years to come.

It was great to see GwyddGig return for its second year and begin to establish itself firmly in Mold. A community festival like this is important, not only as a way of bringing people together, but also as a valuable opportunity to enjoy and celebrate live Welsh-language music.



In a similar vein, the Y Sîn ar y Ffin project has been creating new Welsh-language opportunities to promote the Welsh music scene across Flintshire and Wrexham. Thanks to funding from the Arts Council of Wales, the project has delivered a series of Welsh-language music sessions and clubs in the area's two Welsh-medium secondary schools and in the community. These activities have given pupils the opportunity to discover contemporary Welsh-language artists and bands, discuss and appreciate their work, and develop new skills in a creative and supportive environment.

Each year, it would be impossible to reflect on our activities without mentioning our St David's Day celebrations, which remain among the most important events in our calendar. These celebrations continue to go from strength to strength, building on the strong relationships we have developed with local councils. I am particularly proud that, despite the challenges we face, we continue to organise and deliver successful celebrations across both counties.



It was particularly wonderful to be part of the St David's Day Parade in Wrexham this year. Despite taking place on a Sunday, we saw more families and community groups taking part than ever before, creating a lively and welcoming atmosphere. Volunteers are at the heart of the success of events like these; without their dedication, enthusiasm and support, these celebrations would not be possible. I would like to extend our sincere thanks to them for their invaluable contribution.

Of course, this is just a snapshot of some of the Welsh-language activities and initiatives delivered across the two counties. As you will see throughout the rest of this report, it has been a busy and successful year, with a wide range of activities taking place to benefit the communities of Flintshire and Wrexham during the 2025–2026 financial year.

I would like to extend my sincere thanks to the Menter's staff for their hard work, commitment and enthusiasm throughout the year. My thanks also go to the board members for their time, guidance and continued support, and to our funders and partners for their valuable collaboration. Without their support, none of this work would be possible.

Neges y Prif Swyddog
Message from the Chief Officer

Mae'n bleser cyflwyno Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Fflint a Wrecsam ar gyfer blwyddyn ariannol 2025–2026. Bu'n flwyddyn o fentro, cydweithio a datblygu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio a mwynahu'r Gymraeg.



Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, wrth gwrs, oedd Eisteddfod Wrecsam. Roedd yn gyfle i gefnogi partneriaid, meithrin cysylltiadau newydd a chyfrannu at amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrosiectau a greodd gyfleoedd i bobl o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a chreadigol. O weithdai band yn Ysgol Morgan Llwyd a Choleg Cambria i ddirgelwch 'Llwybr y Llofrydd' ar y maes.

Yn dilyn yr Eisteddfod, derbyniwyd grant gan gomisiwn diwylliannol Wrecsam 2029 i ddatblygu 'Llwybrau Llafar', prosiect peilot o sesiynau newydd i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth drwy chwedlau a hanes lleol a chenedlaethol. Cynhaliwyd sesiynau 'Bwystfilod y Bwrdeistref' gyda phlant ysgol a noson gyda'r Fari Lwyd yn y Saith Seren i siaradwyr Cymraeg newydd. Crëwyd ystafell ddianc neu 'ddihangfa' ar thema hanes Wrecsam, ymhlith sawl gweithgaredd arall. Mae'r cynlluniau a'r adnoddau hyn bellach ar gael inni gynnig rhagor o gyfleoedd rhyngweithiol a chreadigol i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y ddwy sir.



Fe gynhaliwyd ein gŵyl gymunedol yn yr Wyddgrug, GwyddGig, am yr ail flwyddyn yn olynol, a braf yw gallu creu gofod ble mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan naturiol o'r profiad gan alluogi teuluoedd, plant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach ymdrochi ac ymfalchïo yn yr iaith. Eleni am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn fe drefnwyd orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Sir y Fflint i ddathlu ein nawddsant ac rydym yn gobeithio y bydd modd sicrhau bod y dathliad hwn hefyd yn hawlio'i le yng Nghalendr digwyddiadau'r flwyddyn.



Yn y flwyddyn dan sylw fe gefnogwyd siaradwyr Cymraeg newydd ar draws y ddwy sir gan barhau i gynyddu ein darpariaeth i oedolion drwy deithiau cerdded Cymraeg yn y Coed ar y cyd gyda Menter Iaith Sir Ddinbych a Thirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Clwb Crefft Y Waun drwy gyllid gan Groundwork, gwersi cynganeddu yn yr Wyddgrug a chefnogi sesiynau sgwrs i ddysgwyr yn y Waun, Owrtyn ac yn Theatr Clwyd.

Mae'r gweithgareddau uchod yn adlewyrchu ehangder ein gwaith ac roedd cyfraniad ein partneriaid, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau yn ganolog i'w llwyddiant ac yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld, ei chlywed a'i defnyddio mewn ffyrdd amrywiol ledled Sir y Fflint a Wrecsam. Ni fyddai'r gwaith hwn chwaith yn bosibl heb ymroddiad ein staff a'n hymddiriedolwyr.

Wrth droi at y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i wrando ar ein cymunedau, ymateb i gyfleoedd newydd a datblygu ffyrdd creadigol o wneud y Gymraeg yn rhan fyw a naturiol o fywyd bob dydd. Byddwn hefyd yn adeiladu ar yr adnoddau, y partneriaethau a'r hyder a ddatblygwyd yn ystod 2025–2026 er mwyn ehangu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ledled Sir y Fflint a Wrecsam.

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Neges y Prif Swyddog
Message from the Chief Officer

It is a pleasure to present the Menter Iaith Fflint a Wrecsam Annual Report for the 2025–2026 financial year. It has been a year of innovation, collaboration and developing new opportunities for people to use and enjoy the Welsh language.



One of the highlights of the year was, of course, Eisteddfod Wrecsam. It provided an opportunity to support partners, build new relationships and contribute to a range of events and projects that created opportunities for people of all ages to use Welsh in social, cultural and creative settings. From band workshops at Ysgol Morgan Llwyd and Coleg Cambria to a mystery tour around the Eisteddfod field.

Following the Eisteddfod, we received a grant from the Wrecsam 2029 Cultural Commision fund to develop 'Llwybrau Llafar', a pilot project delivering new sessions that promoted culture and heritage through local and Welsh history and legends. 'Bwystfilod y Bwrdeistref' sessions were held with schoolchildren, alongside an evening featuring the Mari Lwyd at Saith Seren for new Welsh speakers. We also created an escape room based on Wrexham's history, among other activities. These sessions and resources are now available for us to offer further interactive and creative opportunities to use Welsh across both counties.

Our community festival in Mold, GwyddGig, took place for the second year running. It is wonderful to be able to create a space where the Welsh language and its culture are a natural part of the experience, allowing families, children, young people and the wider community to immerse themselves in the language and take pride in it. This year, for the first time in several years, a St David's Day Parade was organised in Flintshire to celebrate our patron saint. We also hope to establish this celebration as a regular fixture in our annual events calendar.





During the year in question, we supported new Welsh speakers across both counties, continuing to expand our provision for adults through Cymraeg yn y Coed guided walks with Menter Iaith Sir Ddinbych and Clwydian Range and Dee Valley National Landscape, Clwb Crefft in Chirk with Groundwork, cynghanedd lessons in Mold, and by supporting Welsh conversation sessions for learners in Chirk, Overton and at Theatr Clwyd.

The activities outlined above reflect the broad scope of our work. The contribution of our partners, volunteers and communities was central to their success, helping to ensure that Welsh is seen, heard and used in a variety of ways across Flintshire and Wrexham. None of this work would be possible without the dedication of our staff and trustees.

Looking ahead to the coming year, we will continue to listen to our communities, respond to new opportunities and develop creative ways to make Welsh a living and natural part of everyday life. We will also build on the resources, partnerships and confidence developed during 2025–2026 to expand opportunities to use Welsh across Flintshire and Wrexham.

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

25-26

Yn ystod y flwyddyn dan sylw llwyddwyd i gyrraedd dros **5,000** o bobl gan gynnwys plant, phobl ifanc, oedolion a theuluoedd

Er mwyn gweithio'n ddwysach gyda theuluoedd, fe gynhlaliwyd **2** gyfres **6** wythnos o Symud gyda Tedi

Fe gynhaliwyd stondin ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol gan lwyddo i hyrwyddo gwaith gwych y fenter ar S4C, Radio Cymru, gydag aelodau seneddol a Chymru gyfan

EISTEDDFOD

Fe gynhlaiwyd ein Gŵyl Gymunedol yn yr Wyddgrug am yr ail flwyddyn gan gyrraedd dros

640

o bobl mewn...

5 gweithgaredd i deuluoedd

3 gweithgaredd i bobl ifanc

4 sesiwn i oedolion

13 o berfformiadau gan aritstiaid a bandiau megis Al Lewis a Meinir Gwilym

Diolch i gyllid grant gan Gomisiwn Diwylliannol Wrecsam 2029 cawsom y cyfle i ddatblygu prosiect newydd sef Llwybrau Llafar

Fe gynhaliwyd **6** weithgaredd / digwyddiad oedd yn hyrwyddo chwedlau, hanes, treftadaeth a diwylliant yn y Gymraeg gan gyrraedd

193

o bobl o bob oed.

Erbyn hyn mae dros...

3,200 o bobl yn dilyn ein cyfrif Facebook.

1,300 o bobl yn dilyn ein cyfrif Instagram.

Eleni fe wnaeth **13** ysgol cyfrwng Cymraeg, **394** o blant, gymryd rhan yng nghwis cenedlaethol y Mentrau 'Cwis Dim Clem'

Trwy gyd-weithio gyda'r Eisteddfod, AVOW a chynnal stondinau fe lwyddwyd i ymgysylltu a siarad â **400** o bobl am wirfoddoli, gan ddenu **19** o wirfoddolwyr newydd i helpu mewn prosiectau a digwyddiadau.

Fe sefydliwyd 2 grŵp llywio yn y ddwy ysgol Uwchradd Gymraeg gydag **16** o bobl ifanc, a dechrau 2 Clwb Miwsig amser cinio.

Cynhaliwyd 1 gig Dydd Miwsig Cymru yn y gymuned i dros **160** o bobl

Yn ystod y flwyddyn dan sylw fe llwyddwyd i gynnal dros **60** o weithgareddau i oedolion, gan gynnwys

10 sesiwn cynganeddu
8 sesiwn 'Clwb Crefft'
8 taith gerdded
35 Sesiwn sgwrs

gwybod@menterfflintwrecsam.cymru
www.menterfflintwrecsam.cymru
01352 744040 @menteriaithffaw
menteriaithffaw.bsky.social
@menteriaithffaw
@menteriaithffaw

25-26

During the year in question, we have succesfully reached over **5,000** people, including children, young people, adults and families.

To work closley and connect with families we hosted **2** series of **6** weeks of Symud gyda Tedi sessions.

We hosted a stall with Mentrau Iaith Cymru at the Eisteddfod and advertised our great work on S4C, Radio Cymru, with members of the Senedd and with all of Wales

EISTEDDFOD

Thanks to grant funding from Wrecsam 2029 Cultural Comission grant we were given the opportunity to develop a new project - Llwybrau Llafar

We hosted **6** activities / events that that promoted and shared legends, history, heritage and culture in Welsh, reaching

193 people of all ages

DARGANFOD WRECSAM

WRECSAM CITY OF CULTURE

Through collaborating with the Eisteddfod, AVOW and running information stands we were able to talk to over **400** people about volunteering and succeeded in attracting **19** new volunteers to help in projects and events

YSGOL AR Y FFIN

We established 2 steering groups in both Welsh language high schools with **16** young people and started 2 lunchtime Music Clubs.

We hosted 1 Dydd Miwsig Cymru gig in the community, reaching over **160** people

DYDD MIWSIG CYMRU

Our Welsh language Community Festival returned for its second year reaching over **640** people in...

GWYLDGIG

5 activities for families

3 ctivities for young people

4 sessions for adults

13 performances from artists and bands such as Al Lewis a Meinir Gwilym

Currently...

3,200 people follow our Facebook account.

1,300 people follow our Instagram account.

This year **13** Welsh language primary schools

394 children took part in the national quiz organise by the Mentrau - 'Cwis Dim Clem'

CWIS DIM CLEM

During the year in question we were able to organise more than **60** activities for adults including...

- **10** cynganeddu sessions
- **8** 'Clwb Crefft' sessions
- **8** guided walks
- **35** Welsh chat sessions

gwybod@menterfflintwrecsam.cymru

www.menterfflintwrecsam.cymru

01352 744040 @menteriaithffaw


menteriaithffaw.bsky.social

@menteriaithffaw


@menteriaithffaw

Incwm Income 25-26

- Grant Llywodraeth Cymru / *Welsh Government Grant*
- Cyngor Celfyddydau Cymru
  Arts Council of Wales
- Cyngor Sir Y Fflint CLG
  Flintshire County Council SLA
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Dydd Gwyl Dewi a Y Sîn ar y Ffin - Wrexham County Borough Council
- Incwm Gwaith Partneriaid
  Income from Partnership Work
- Incwm Gweithgareddau
  Activities Income
- Grant Comisiwn Diwylliannol Wrecsam 2029
  Wrexham 2029 Cultural Commission Grant
- Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau Sir Y Fflint
  Flintshire County Council Activities & Events Grant
- Incwm Arall
  Other Income
- Cronfa Cydlyniant Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru
  Community Cohesion Fund
- Lwfans Cyflogaeth
  Employment Allowance
- Cyngor Sir Y Fflint - Dydd Gŵyl Dewi / GwyddGig -
  Flintshire County Council



GWARIANT / EXPENDITURE 2025-26



- Cyflogau / *Salaries*
- Gweithgareddau a phrosiectau'r Fenter.
  Menter's activies and projects.
- Gweinyddol / *Administrative*

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Dyfyniadau a lluniau
Quotes and pictures
25-26













Performers were fantastic and well organised. It was great to see it so well supported, especially the schools who were on first thing. - *Gwyddgig 2025*








Pa mor wir oedd Siôn Corn yn edrych ac mewn cymeriad. Hoffi bod o'n defnyddio gwybodaeth am dan y plant a bod ei wisg mor real ddim yn un ffelt a barf naff fel lot o lefydd eraill! - *Groto Sion Corn*





















Hoffai Menter Iaith Fflint a Wrecsam ddiolch i'w darparwyr grantiau a noddwyr am eu cymorth yn ystod 2025-2026

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government

AVOW
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Association of Voluntary Organisations in Wrexham

CAIS DINAS DIWYLLIANT Y DU
WRECSAM2029
UK CITY OF CULTURE BID

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

CASTELLUM·SUPRA·FLUVIUM

MENTRAU IAITH